



Cylchlythyr #30 SCHTh Gogledd Cymru – 06 Hydref 2023  
OPCC North Wales Newsletter #30 – 06 October 2023

### CHTh yn gweld sut mae nawdd cymunedol yn helpu dyfodol positif

Ar 28 Medi, mi wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Andy Dunbobbin ymweld â Seren Ffestiniog Cyf (Seren) yn eu canolfan ym Mlaenau Ffestiniog i ddysgu mwy am sut mae arian o gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis yn cael ei ddefnyddio i wella ansawdd bywyd pobl gydag anawsterau dysgu.

Mae Eich Cymuned, Eich Dewis yn dathlu ei degfed pen-blwydd yn 2023 a, dros y deng mlynedd diwethaf mae dros £500,000 wedi cael ei roi i dros 150 o brosiectau yn gweithio i leihau trosedd yn eu hardaloedd a chynorthwyo'r blaenoriaethau yng Nghynllun Trosedd Comisiynydd yr Heddlu.

Sefydlwyd Seren Ffestiniog Cyf yn 1996 fel elusen sy'n darparu gofal cartref, gofal dydd a gofal seibiant ar gyfer unigolion gydag anableddau corfforol ac anableddau dysgu yng Ngwynedd ac mae wedi datblygu nifer o brosiectau, yn cynnwys profiad gwaith a sgiliau cyflogaeth o fewn eu gwasanaeth gofal dydd

Gyda'r arian a dderbyniwyd o'r gronfa Eich Cymuned, Eich Dewis, mae Seren wedi prynu taflunydd rhyngweithiol i ddatblygu medrusrwydd a sgiliau gweledol ac ymenyddol defnyddwyr eu gwasanaeth. [Darllenwch fwy yma.](#)



## PCC sees how community funding is projecting a positive future

On September 28, Police & Crime Commissioner Andy Dunbobbin visited Seren Ffestiniog Cyf (Seren) at their centre in Blaenau Ffestiniog to learn more about how funding from the Your Community, Your Choice fund is being used to further their work in enhancing the quality of life of those with learning disabilities.

Your Community, Your Choice is celebrating its tenth anniversary in 2023 and, over the past ten years, a total of over £500,000 has been awarded to more than 150 projects working to reduce crime in their areas and to support the priorities in the Police and Crime Commissioner's Police and Crime Plan

Established in 1996, Seren Ffestiniog Cyf is a charity that provides domiciliary, day and respite care for individuals with physical and learning disabilities in Gwynedd and has developed several projects, including offering work experience and employability skills within their day care service.

With the monies received from the Your Community, Your Choice funding, Seren have purchased an interactive projector to develop the dexterity, visual and mental skills of their service users. [Read more here.](#)

---

### Pot o arian yn helpu cyfeirio pobl ifanc at ddiogelwch

Aeth Andy Dunbobbin i weld Pentre Peryglon yn Nhalacre er mwyn gweld y gwaith hanfodol mae'r sefydliad yn ei wneud er mwyn helpu pobl ifanc Gogledd Cymru a gweld faint o arian a gymerwyd oddi ar droseddwyr sy'n cael ei ddefnyddio er budd pobl y rhanbarth.

Mae Pentre Peryglon yn elusen annibynnol ar arfordir Gogledd Cymru. Roedd yn un o enillwyr diweddar gwobrau ariannu Eich Cymuned, Eich Dewis.

Mae'r arian o Eich Cymuned, Eich Dewis yn helpu'r Pentre Peryglon ddarparu sesiynau noddedig a chostau teithio i ysgolion ledled Gogledd Cymru. Fel y cyfryw, mae'r prosiect o fudd i blant 5 i 11 oed ynghyd ag oedolion bregus o chwe sir Gogledd Cymru. Mae'r sesiynau'n defnyddio senarios rhwngweithiol Pentre Peryglon er mwyn cyflawni ymweliadau sgiliau bywyd i 450 o blant a phobl ifanc. Mae'r prosiect yn defnyddio'r setiau ffilm gafaelgar er mwyn ymgysylltu hefo pobl ifanc yn y sgwrs o ran diogelwch cymunedol er mwyn eu helpu a'u gwarchod nhw.

#### Darllenwch fwy yma.



## Funding pot helps point the way to safety for young people

Andy Dunbobbin visited the home of DangerPoint in Talacre on 21 September to see the crucial work the organisation is doing to support the young people of North Wales and to see how money taken from criminals is being used for the good of the people of the region.

DangerPoint is an independent charity based on the North Wales Coast and was one of the winners of the latest Your Community, Your Choice funding awards.

The funding from Your Community, Your Choice is helping DangerPoint provide subsidised sessions and transport costs for schools across North Wales. As such, the project benefits young people aged 5 to 11 as well as vulnerable adults from all six counties in North Wales. The sessions make use of DangerPoint's interactive scenarios to deliver life skill visits for 450 children and young people. The project uses the immersive film sets to engage young people in the dialogue around community safety to support and protect them. [Read more here.](#)

---

## Cymhorthfa CHTh: Llangefni, Ynys Mon

Bydd Andy Dunbobbin yn cynnal ei gyfarfod cymhorthfa nesaf yn Llangefni yn fuan. Bydd y cyfarfod yn galluogi pobl leol i drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd a swyddogion heddlu lleol.

 Llangefni - Canolfan Glanhwfa, Ffordd Glanhwfa, Llangefni LL77 7QX

 25 Hydref 2023 | 2-4pm

A oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad â'r Comisiynydd? [Archebwch le yma.](#)

Bydd lleoliadau pellach ar gyfer gweddill 2023 yn cael eu cyhoeddi maes o law.



## PCC Surgery: Llangefni, Anglesey

Andy Dunbobbin will soon hold his next surgery meeting in Llangefni. The meeting will enable local people to discuss policing in their communities and to raise any concerns or comments they might have with the Commissioner and local police officers.

---

Interested in speaking to the Commissioner? [Book a place here.](#)

Further locations for the rest of 2023 will be announced in due course.

## Mae cydweithio cynaliadwy o fudd i drigolion Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi ailddatgan ei ymroddiad i weithio cynaliadwy drwy ei bartneriaeth hefo menter gymdeithasol leol.

Mae cydweithrediad hefo North Wales Recycle I.T. ar Ynys Môn wedi sicrhau fod hen gyfrifiaduron yr heddlu wedi cael eu haddasu at ddiben arall ar gyfer unigolion sy'n byw ledled Gogledd Cymru. Mae teuluoedd a phlant ymysg y rhai hynny sydd wedi elwa o'r cynllun menter gymdeithasol nid er elw, sef yr unig wasanaeth o'i fath yn y rhanbarth.

Dywedodd Andy Dunbobbin: "Dwi'n falch o weld offer TG ar draws Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ailgylchu ac yn cael ei ddefnyddio'n dda er budd pobl ledled ar draws y rhanbarth.

"Nid yn unig fod y bartneriaeth rhwng North Wales Recycle I.T. a Heddlu Gogledd Cymru yn well er budd yr amgylchedd – sy'n bryder mawr i ni gyd y dyddiau hyn – ond mae aildefnyddio'r offer hwn yn helpu ehangu mynediad at gyfrifiaduron, hyrwyddo cynhwysiant ac yn rhoi'r cyfle i blant gynyddu eu sgiliau gwaith a TG."

[Darllenwch fwy yma.](#)



## Sustainable IT collaboration benefits North Wales residents

North Wales Police has reaffirmed its commitment to sustainable working through its partnership with a local social enterprise.

A collaboration with the Anglesey-based North Wales Recycle I.T. has ensured that used, force-owned computers have been repurposed for individuals living across North Wales. Families and children are among those to have benefited from the not-for-profit social enterprise scheme, which is the only service of its kind in the region.

Andy Dunbobbin said: "I am delighted to see IT equipment from across North Wales Police being recycled and put to good use for the benefit of local people across the region."

"Not only is this partnership between North Wales Recycle I.T. and North Wales Police better for the environment – a key concern for us all these days – but reusing this equipment helps to widen access to computers, promote inclusion and offers people the chance to increase their work and IT skills." [Read more here.](#)

## Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media

- Golwg360: [Mwy wedi'u harestio am yrru o dan ddylanwad cyffuriau nag alcohol yn y gogledd – Golwg360](#)
- Deeside.com: [North Wales event to shine a light on hate crime | \(deeside.com\)](#) (Erthygl Saesneg)
- North Wales Pioneer: [It's now a decade of North Wales Police rural crime team | \(Erthygl Saesneg\)](#)

**SWYDDFA COMISIINYDD HEDDLU  
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**OFFICE OF THE POLICE & CRIME  
COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.  
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?

Cysylltwch â ni drwy [socialmedia@northwales.police.uk](mailto:socialmedia@northwales.police.uk) i ddiweddarau eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?

Contact us via [socialmedia@northwales.police.uk](mailto:socialmedia@northwales.police.uk) to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throedd Gogledd Cymru  
Pencadlys yr Heddlu  
Glan y Don  
Bae Colwyn  
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales  
Police Headquarters  
Glan y Don  
Colwyn Bay  
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:  
<https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd>

You can read our privacy policy here:  
<https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy>